# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 11eg Gorffennaf, 2022**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.35 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Siôn Williams (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffiths (rhan o'r cyfarfod), Dylan Parry Jones, Michael Strain, Efan Thomas, Carys E. Williams, Iwan J. Willaims, Glenys Williams
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd)

## 31. CROESAWU'R AELODAU A'R DDAU AELOD NEWYDD

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a mynegodd fod yn bleser gweld pobl ifanc yr ardal yn dangos diddordeb yn yr ardal ac eisiau bod yn rhan o'r trafodaethau er lles y bobl. Dymunodd yn dda iddynt hwy a gweddill y Cyngor. Cyfeiriodd fod un aelod newydd dros Ward Bryncroes sef Efan Thomas, ac hefyd Gwenan Griffiths, dros Ward Botwnnog, wedi ail ymuno a'r Cyngor.

**Cyn** i drafodaethau ar faterion y Cyngor gychwyn adroddodd y Cadeirydd fod angen i'r ddau aelod a enwir uchod arwyddo eu bod yn derbyn y swydd o fod yn Gynghorydd ac hefyd ddatgan eu bod am barchu'r Côd Ymddygiad.

**Er gwybodaeth dyma aelodau'r Cyngor :**

| | |
|---|---|
| Ward Bryncroes – | Y Cynghorydd Dylan Parry Jones |
| | Y Cynghorydd William Michael Strain |
| | Y Cynghorydd Efan Thomas |
| | Y Cynghorydd Iwan James Williams |
| Ward Sarn Mellteyrn | Y Cynghorydd Elin Hughes |
| | Y Cynghorydd Carys Eilwen Williams |
| | Y Cyngor Siôn Williams |
| Ward Botwnnog | Y Cynghorydd Carys H. Evans |
| | Y Cynghorydd Gwenan Griffiths |
| | Y Cynghorydd Glyn Roberts |
| | Y Cynghorydd Glenys Williams |

## 32. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

## 33. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 13eg MEHEFIN, 2022

**Cyflwynwyd,** cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Mehefin, 2022. (Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Michael Strain ac eilwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans gyda phawb yn cytuno).

**Materion yn codi**

**(A)Eitem 19 – Cadarnhau Cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Mai, 2022(cymal (1) – materion yn codi o'r Cyfarfod Blynyddol**

(1) Adroddiad Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llyn ar Gyngor Gwynedd. Copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen a bydd yn rhan o'r cofnodion swyddogol.

**Diolchwyd** i'r Cynghorydd Gareth Williams y gwaith rhagorol a wneir ganddo ar ran y Gymdeithas.

(b) Adroddiad Gwenan Griffiths, cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gôf. Copi o'r adroddiad yma yn rhan o'r cofnodion swyddogol.

**Diolchwyd** i'r Cynghorydd Gwenan Griffiths am ei hadroddiad gynhwysfawr.

(c) **Penderfynwyd** ethol Y Cynghorwyr Carys H. Evans a Siôn Williams i gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor o Un Llais Cymru.

**B – Dathlu**

**Penderfynwyd** ystyried syniadau ar gyfer paratoi ar gyfer harddu'r pentrefi a.y., cyn i'r Eisteddfod Genedlaethol ymweld â'r ardal y flwyddyn nesaf ac i groesawu pobl i'r ardal, yng nghyfarfod mis Medi o'r Cyngor.

34. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y ceisiadau a ganlyn:

(a) Cais C22/0566/32/LL – codi ffensys hyd at 2.4m o uchder mewn lleoliadau amrywiol o fewn tir Ysgol Botwnnog

(b)Cais llawn ar gyfer datblygiad yn cynnwys 8 tŷ fforddiadwy ynghyd a gwaith cysylltiol ar safle eithrio gwledig (cam 1 o 2) / tir ger Ystad Congl Meinciau, Botwnnog

**Penderfynwyd**

(1) Cefnogi cais (a) uchod.

(2) Cefnogi cais (b) uchod ar yr amod eu bod yn dai fforddiadwy i bobl leol.

(3) O berthynas i gais (b) uchod, penderfynwyd ymhellach ysgrifennu at Grwp Cynefin am eglurhad pam nad yw'r tir a neilltuwyd ar gyfer creu maes chwarae heb wirieddu a hynny flynyddoedd ar ôl i'r tai presennol gael eu hadeiladu.

35. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

**Penderfynwyd** ysgrifennu at yr Adran Priffyrdd yng Nghyngor Gwynedd yn tynnu eu sylw at:

a) Y ffordd ger Cellar, Botwnnog, mewn cyflwr gwael iawn ac angen sylw brys.

b) Cŵyn wedi ei derbyn fod y ffordd o Gwynfa am Gapel Ty Mawr, Bryncroes, wedi cau ac angen i'w barbio/tocio'r coed.

c) Y tyfiant ar y gongl sy'n arwain o'r Feddygfa i fyny am Lys Meddyg, Botwnnog, angen ei barbio oherwydd diffyg gweledigaeth i yrrwyr sydd yn dod o'r ddau gyfeiriad.

**Yn y cyswllt hwn** tynnwyd sylw at yr angen i gael biniau ysbwriel ym mhentref Sarn ac addawodd Y Cynghorydd Gareth Williams y byddai'n cysylltu â swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod y mater.

**Hefyd,** derbyniwyd gwybodaeth gan Beiriannydd Ardal Dwyfor ar 4ydd Gorffennaf, 2022, y byddai gwaith draeniad yn cael ei wneud ger Capel Ty Mawr, Bryncroes, yn ystod mis Gorffennaf.

**Dywedodd** Y Cynghorydd Gareth Williams iddo gael cais am gael arwydd mwy ym Mhedair Croeslon i ddynodi'r ffordd i bentref Bryncroes.

**Penderfynwyd** am bris am arwydd mwy.

36. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

**Cyflwynwyd** copi o ymateb Mabon ap Gwynfor, yr Aelod Seneddol, oddi wrth Ddirprwy Brif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Beti Cadwaladr. (Copi'n rhan o'r cofnodion).

Adroddodd y Clarc iddi gael ar ddeall gan Dr. O.G. Morris fod dwy wedi eu penodi fel Cymdeithion Meddyg (Physician Associates) sef Laura Sadler a Rosie Warburton sydd wedi ymunodd a'r Feddygfa yn Ebrill, 2022.
Dywedodd Dr. Morris hefyd fod Meddyg Teulu ychwanegol yn ymuno â Meddygfa Rhydbach yn Hydref, 2022.
**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

37. **GWEITHDAI ARDAL NI 2035**
**Cyflwynwyd** gwahoddiad i ethol dau aelod i fynychu gweithdai ynglyn a'r uchod. (Copi o'r gwahoddiad wedi ei anfon allan gyda'r rhaglen).
**Penderfynwyd** fod y Cyngor yn cael ei gynrychioli gan Y Cynghorydd Carys H. Evans a'r Cynghorydd Elin Hughes.

38. **AWDURDOD I DALU**
Nid oedd unrhyw daliad yn ddyledus.

39. **HAWLIAU MIS AWST**
**Penderfynwyd:**
a) rhoddi hawl i'r Cadeirydd awdurdodi taliadau a ddaw yn ddyledus yn ystod mis Awst.
b) rhoddi hawl i'r Cadeirydd mewn ymgynghoriad ag aelodau'r Ward y daw cais cynllunio i fewn, i benderfynu ar y cyfryw.

40. **SESIYNAU HYFFORDDI GAN UN LLAIS CYMRU**
**Penderfynwyd** ystyried y sesiynau hyn yng nghyfarfod mis Medi o'r Cyngor.